# PENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

## Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rhan ganolog yn y fframwaith foesegol sy'n rheoli ymddygiad aelodau awdurdodau lleol. Mae pob aelod o Gyngor Gwynedd ac o bob cyngor cymuned a thref wedi ymrwymo i ymddwyn yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad i Aelodau. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg yr aelodau yma, a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad.

Mae gan y Pwyllgor swyddogaethau penodol gan gynnwys ystyried cwynion fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad a gosod cosb lle'n briodol. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod. Yn ogystal â hyn mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

## Yr Aelodau Annibynnol

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 5 aelod annibynnol, 3 cynghorydd o Gyngor Gwynedd ac un aelod o gyngor cymuned/tref. Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod meini prawf ar gyfer ystyried ceisiadau i wasanaethu fel aelod annibynnol:

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth ac amhleidioldeb wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau mewn hybu, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned/tref y sir.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn golygu bod yn rhaid i'r aelodau annibynnol feddu ar y nodweddion a sgiliau canlynol:-

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

Nid oes angen gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai o fantais pe bai diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr mewn materion sy'n berthnasol i fywyd a gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, y mae'n rhaid i aelodau annibynnol:-

- 
- Fod yn gymwys i gael eu dethol yn aelod annibynnol (*gweler isod am bwy <u>na</u> all fod yn aelod annibynnol**).
- Fod yn uchel eu parch o fewn y gymuned:
- Allu rhoi'r amser angenrheidiol i'r dyletswyddau a bod ar gael ar fyr rybudd;
- Allu darparu dau dystlythyr.

Ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn fantais a chymerir i ystyriaeth cadw cydbwysedd sgiliau, rhinweddau a medrusrwydd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned yn gyfan gwbl a chyflawni cynrychiolaeth ddaearyddol.

Mae'r pwyllgor yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn ond gelwir cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen. Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn nodi bod ffi fesul awr o £26.25 yn daladwy i aelodau cyfetholedig / lleyg o awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio (£33.50 i gadeirydd pwyllgor).

**<u>Pwy sy'n gymwys i fod yn Aelod Annibynnol?</u>**

***Ni chaiff person fod yn aelod annibynnol os yw:***

- yn aelod neu swyddog (neu yn briod neu mewn partneriaeth sifil ag aelod neu swyddog) unrhyw gyngor sir/bwrdeistref sirol, awdurdod tân, awdurdod parc cenedlaethol, neu gyngor cymuned/tref.

- yn gyn aelod o Gyngor Gwynedd hyd nes bod cyfnod o ddwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r person hwnnw beidio a bod yn aelod neu,os oedd yn dal swydd uwch, swydd gabinet neu swydd weithredol, bod pum mlynedd wedi mynd heibio ers iddo/i beidio dal swydd o'r fath

- Yn gyn swyddog Cyngor Gwynedd oedd yn dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol neu yn swyddog cofrestru hyd nes bod cyfnod o ddwy flynedd wedi mynd heibio ers iddo/i beidio â dal swydd o'r fath.

**<u>Y Broses Benodi</u>**

Bydd y Panel Ymgynghorol yn cyfweld pob ymgeisydd. Bydd wedyn yn cyflwyno ei argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor Llawn, a fydd yn gwneud y penodiad.

**Mae'n rhaid cyflwyno cais ar y Ffurflen Gais bwrpasol ynghyd a 2 dystlythyr.**

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau yn eu swyddi yn syth a gwasanaethu, yn amodol ar derfynu eu swydd neu ymddiswyddo, am 6 mlynedd.

Mae'r Awdurdod yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau Cyfle Cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan ferched, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o dras leiafrifol.

***Mae gwybodaeth bellach am y Pwyllgor ar gael ar ein gwefan – www.gwynedd.llyw.cymru/pwyllgorsafonau***

***Am fanylion pellach neu sgwrs anffurfiol cysylltwch â Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau, e-bost: priodoldeb@gwynedd.llyw.cymru ; ffôn: (01286) 679168.***